Archwilio Cymru
Audit Wales

# Cynaliadwyedd Ariannol Llywodraeth Leol o Ganlyniad i Bandemig COVID-19

Hydref 2020



Adrian Crompton
Archwilydd Cyffredinol Cymru
Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol o'r Senedd ac o lywodraeth. Mae'n archwilio ac yn ardystio cyfrifon Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus sy'n gysylltiedig â hi ac a noddir ganddi, gan gynnwys cyrff y GIG. Mae ganddo'r pŵer i gyflwyno adroddiadau i'r Senedd ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y defnydd a wna'r sefydliadau hynny o'u hadnoddau wrth gyflawni eu swyddogaethau, a sut y gallent wella'r defnydd hwnnw.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, mae'n cynnal astudiaethau gwerth am arian mewn llywodraeth leol ac yn arolygu cydymffurfiaeth gydag anghenion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sydd yn fwrdd statudol wedi'i sefydlu ar gyfer y nod hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2020

Archwilio Cymru yw enw ymbarél Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n ddau endid cyfreithiol ar wahân â'u swyddogaethau cyfreithiol eu hunain. Mae gan yr Archwilydd Cyffredinol swyddogaethau archwilio ac adrodd ar gyrff cyhoeddus yng Nghymru. Mae gan Swyddfa Archwilio Cymru swyddogaethau darparu adnoddau, megis staff, er mwyn arfer swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol, a monitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol. Pan fo hynny'n berthnasol, mae testun y ddogfen hon yn nodi swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol a swyddogaethau Swyddfa Archwilio Cymru. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol ac nid oes ganddo unrhyw swyddogaethau.

Cewch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Os byddwch yn ei ailddefnyddio, rhaid i chi ei ailddefnyddio'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.

Am fwy o wybodaeth, neu os ydych angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau mewn ffurf ac/neu iaith wahanol, cysylltwch â ni drwy ffonio 029 2032 0500 neu drwy e-bostio post@archwilio.cymru. Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Gallwch ysgrifennu atom hefyd, yn Gymraeg neu'n Saesneg, a byddwn yn ymateb yn yr iaith rydych chi wedi ei defnyddio. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

This document is also available in English.

# Cynnwys

**Mae cynghorau a Llywodraeth Cymru a wedi cydweithio'n dda i liniaru effaith y pandemig hyd yma ond mae cynaliadwyedd y sector yn y dyfodol yn her barhaus.**

**Adroddiad cryno** 4

Crynodeb 4

Pam ein bod wedi cynhyrchu'r adroddiad hwn 4

**Adroddiad manwl** 5

Mae cynghorau a Llywodraeth Cymru wedi cydweithio'n dda i liniaru effaith y pandemig hyd yma ond mae cynaliadwyedd y sector yn y dyfodol yn her barhaus 5

Yn erbyn cefnlen o bwysau o ran cyllid a oedd eisoes yn bodoli, mae costau ariannol y pandemig yn ddigynsail yn y cyfnod modern 5

Roedd rhai cynghorau mewn sefyllfa well yn ariannol na'i gilydd i ymateb i heriau'r pandemig 6

Mae cost y pandemig i gynghorau'n sylweddol, er bod cyfran fawr o'r effaith fyrdymor wedi cael ei lliniaru trwy ddarparu cyllid ychwanegol 12

Mae'r heriau ariannol sy'n deillio o'r pandemig yn niferus ac yn mynd ymhell y tu hwnt i gostau mwy uniongyrchol ac amlwg ymateb i'r argyfwng 14

Gwaith Archwilio Cymru yn y dyfodol – cefnogi cynaliadwyedd ariannol a gwaith cynllunio adferiad 15

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

### Pam ein bod wedi cynhyrchu'r adroddiad hwn

1 Roeddem eisoes wedi adnabod cynaliadwyedd ariannol fel risg allweddol i drefniadau cynghorau cyn i'r pandemig ddigwydd. Roedd hyn, yn rhannol, i'w briodoli i'r pwysau sylweddol ar gyllid cyhoeddus y DU ac, felly, Cymru yn dilyn argyfwng ariannol 2008-09. Fe gynhyrchom ni adroddiad ar gynaliadwyedd ariannol pob cyngor lleol yn ystod 2019-20, ac roedd yr adroddiadau hyn yn dangos bod cynghorau mewn sefyllfaoedd gwahanol o ran eu lefel o gronfeydd wrth gefn a'u hanes o wario o fewn eu cytundebau cytunedig.

2 Yn erbyn y gefnlen hon mae'r pandemig eisoes wedi cael effaith fwy dwfn ac uniongyrchol ar gyllid y sector cyhoeddus ar y cyfan ac, o ganlyniad, ar sefyllfa ariannol cynghorau. Mae'r effaith ar wariant y sector cyhoeddus dros gyfnod mor fyr yn ddigynsail ar adeg heddwch yn y cyfnod modern.

3 Yr adroddiad hwn yw dechrau ein gwaith i fwrw golwg ar gynaliadwyedd cynghorau lleol yn ystod 2020-21, gan adeiladu ar y gwaith a gwblhawyd gennym yn 2019-20. Mae'r adroddiad yn nodi sefyllfa sylfaenol lefel-uchel, gan gynnwys y sefyllfa o ran cronfeydd wrth gefn, cynghorau lleol cyn y pandemig. Mae hefyd yn nodi goblygiadau ariannol cychwynnol y pandemig ar gyfer cynghorau lleol a maint yr her a ragwelir wrth edrych tua'r dyfodol, yn ogystal â rhai myfyrdodau ar barodrwydd llywodraeth leol yng Nghymru ar gyfer digwyddiad mor ddigynsail. Yn olaf, rydym yn nodi sut y mae Archwilio Cymru yn bwriadu rhoi cymorth a her adeiladol i gynghorau a'r sector llywodraeth leol, yn ei gyfanrwydd, yn ystod gweddill 2020-21, yn eu hymdrechion i gynnal cynaliadwyedd ariannol yn erbyn pwysau mor sylweddol o ran cyllid.

# Adroddiad manwl

## Mae cynghorau a Llywodraeth Cymru wedi cydweithio'n dda i liniaru effaith y pandemig hyd yma ond mae cynaliadwyedd y sector yn y dyfodol yn her barhaus

### Yn erbyn cefnlen o bwysau o ran cyllid a oedd eisoes yn bodoli, mae costau ariannol y pandemig yn ddigynsail yn y cyfnod modern

4 Mae cyllid llywodraeth leol yng Nghymru wedi bod dan bwysau sylweddol am dros ddegawd, yn dilyn yr argyfwng ariannol yn 2008-09 a ysgogodd ddirwasgiad byd-eang difrifol.

5 Mewn ymateb i hyn, mae cynghorau wedi bod yn dibynnu ar gyfuniad o arbedion sylweddol er enghraifft trwy fesurau effeithlonrwydd, trawsnewid gwasanaethau a thoriadau i wasanaethau i ostwng costau. Mae cynghorau hefyd wedi cynyddu eu hincwm trwy'r dreth gyngor a'r ffioedd a thaliadau a godir am rai gwasanaethau. Mae ein hadroddiadau blaenorol ar gynaliadwyedd ariannol a chydnerthedd cynghorau lleol, gan gynnwys ein gwaith ar gynllunio arbedion mewn llywodraeth leol, yn cynnwys rhagor o fanylion am hyn. Mae'r adroddiadau hyn ar gael ar wefan Archwilio Cymru.

6 Yn erbyn y gefnlen hon, bydd cost mynd i'r afael â'r pandemig i wariant cyhoeddus yn gwneud i gost yr argyfwng ariannol ymddangos yn fach mewn cymhariaeth, gan effeithio ar iechyd a lles, yr economi ehangach a gwariant cyhoeddus. Isod ceir rhai yn unig o'r rhagfynegiadau y mae'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol wedi'u llunio'n ddiweddar (Gorffennaf 2020):

- y bydd lefel fenthyca net y sector cyhoeddus rhwng £264 biliwn a £391 biliwn ar gyfer 2020-21;
- y bydd Cynnyrch Domestig Gros yn crebachu rhwng 10.6% ac 14.3%; ac
- y bydd benthyca i ariannu gwariant cyhoeddus yn codi nes ei fod rhwng 94.8% a 113.2% o Gynnyrch Domestig Gros dros 2020-21.

7 Mae'n hynod annhebygol y bydd effaith ariannol y pandemig yn gyfyngedig i'r flwyddyn ariannol gyfredol. Bydd bron yn sicr yn effeithio ar gyllid y sector cyhoeddus gan gynnwys llywodraeth leol am sawl blwyddyn i ddod ni waeth beth fydd llwybr y pandemig yn y dyfodol. Mewn blog cynharach ym mis Mehefin 2020, fe wnaethom nodi sut y mae cyllid ychwanegol o £2.5 biliwn wedi cael ei ddyrannu i Gymru, ac o fewn Cymru, mewn ymateb i COVID-19. Mae hyn yn dangos graddfa'r ymateb ariannol hyd yma. Fel gyda llawer o bethau sy'n gysylltiedig â'r pandemig, mae pethau'n dal i newid yn gyflym gyda chyhoeddiadau pellach am gyllid gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru. Trwy 'Gronfa Caledi Llywodraeth Leol' mae cymorth gwerth bron i £500 miliwn ar gael bellach gan gynnwys cyhoeddiad gan Lywodraeth Cymru ynghylch hyd at £264 miliwn mewn cymorth ariannol i awdurdodau lleol am weddill y flwyddyn ariannol ar 17 Awst 2020. Trefnwyd fod cyllid arall ar gael i awdurdodau lleol yn ychwanegol at y gronfa caledi, er enghraifft mewn perthynas â chyllid ychwanegol ar gyfer athrawon i roi cymorth dal i fyny mewn perthynas ag addysg, deunyddiau glanhau i ysgolion a rhan o'r gronfa ddiwylliannol.

## Roedd rhai cynghorau mewn sefyllfa well yn ariannol na'i gilydd i ymateb i heriau'r pandemig

8 Dros 2019-20 fe wnaethom fwrw golwg ar gynaliadwyedd ariannol cynghorau yng Nghymru a chynhyrchu adroddiad ar bob cyngor. Bu oedi cyn cyhoeddi rhai o'r adroddiadau hyn oherwydd y pandemig ond mae'r rhan fwyaf bellach ar gael ar ein gwefan.

9 Dengys yr adroddiadau fod rhai cynghorau mewn sefyllfa well o lawer na'i gilydd i ddod drwy her ariannol fel y pandemig. Enghreifftir hyn yn fwyaf amlwg gan y lefelau amrywiol o gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy a oedd yn cael eu dal gan gynghorau, eu hanes o wario o fewn eu cyllidebau cytunedig dros y blynyddoedd diwethaf ac, yn gysylltiedig â hyn, i ba raddau y mae eu cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy wedi bod yn cynyddu neu'n lleihau dros y blynyddoedd diwethaf. Rydym ni'n meddwl hefyd bod gallu cynghorau i adnabod, cynllunio a chyflawni arbedion yn un o ddangosyddion allweddol cynaliadwyedd ariannol.


10 Roedd yr adroddiad Independent Review into the Oversight of Local Audit and the Transparency of Local Authority Financial Reporting gan Syr Tony Redmond yn nodi fel a ganlyn:

> 'This suggests that the external auditor should report to Full Council on risks identified and conclusions reached, in a transparent and understandable format.[1] To be of most use, such a report would need to be timely.'

1 Independent Review into the Oversight of Local Audit and the Transparency of Local Authority Financial Reporting, Syr Tony Redmond, Medi 2020

11 Mae’r adroddiad hefyd yn crynhoi colofnau cydnerthedd ariannol a dangosyddion straen ariannol CIPFA[2]. Cyflwynir y rhain yn **Arddangosyn 1** isod ac maent yn cynnwys sawl maes y gwnaethom sylwadau arnynt yn ein gwaith yn 2019-20.

### Arddangosyn 1: Colofnau Cydnerthedd Ariannol CIPFA[3]




12 Dengys **Arddangosyn 2** lefel y cronfeydd wrth gefn refeniw defnyddiadwy a oedd yn cael eu dal gan bob cyngor ar 31 Mawrth 2019 ac yna ar 31 Mawrth 2020, ynghyd â swm y cynnydd neu’r gostyngiad ynddynt dros yr amser hwnnw. Dengys **Arddangosyn 2** fod cyfanswm cronfeydd wrth gefn refeniw defnyddiadwy’r holl gynghorau dros £1 biliwn ar ddiwedd mis Mawrth 2020. Fe wnaethom y sylw uchod bod cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru wedi lliniaru effaith ariannol y pandemig ar gynghorau lleol i raddau helaeth ar gyfer 2020-21. Fodd bynnag, os bydd effaith y pandemig yn parhau yn ystod blynyddoedd yn y dyfodol, efallai y bydd angen i gynghorau ddefnyddio’u cronfeydd wrth gefn yn fwyfwy i gwrdd â chostau ychwanegol neu ategu colledion incwm.

2 building financial resilience: managing financial stress in local authorities, CIPFA, Mehefin 2017

3 Wedi’i gymryd o Independent Review into the Oversight of Local Audit and the Transparency of Local Authority Financial Reporting, Syr Tony Redmond, Medi 2020

13 Byddem yn disgwyl gwahaniaethau yn lefel y cronfeydd wrth gefn a ddelir gan bob cyngor gydag, er enghraifft, y cynghorau hynny y mae costau net eu gwasanaethau'n uwch yn debygol o fod â lefelau uwch o gronfeydd wrth gefn. Dengys **Arddangosyn 3** swm y cronfeydd wrth gefn a oedd yn cael eu dal gan bob cyngor fel canran o gost net eu gwasanaethau. Mae hyn yn amrywio'n sylweddol rhwng cynghorau, gyda'r cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy fel canran o gost net gwasanaethau'n amrywio o 33% i 5%.

14 Fodd bynnag, dylid trin y lefel o gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy â pheth pwyll. Er ein bod wedi diffinio hyn fel lefel y cronfeydd wrth gefn refeniw gan gynnwys cronfeydd wrth gefn 'wedi'u clustnodi' a chronfeydd wrth gefn sy'n 'gronfeydd cyffredinol' y gellid eu defnyddio at ddibenion gwahanol pe bai'r cyngor yn penderfynu gwneud hynny, rydym yn cydnabod yn ymarferol y byddai'n haws defnyddio rhai cronfeydd wrth gefn at ddibenion gwahanol na rhai eraill, gan ddibynnu ar gyfer beth maent wedi cael eu clustnodi.

15 Yn amlwg, mae nifer o ffactorau a allai effeithio ar gynaliadwyedd ariannol cyngor fel a nodwyd gennym uchod. Mae'r rhain yn cynnwys, ymhlith ffactorau eraill, ei fantolen, lefel ei rwymedigaethau a hefyd cyllid arall sydd ar gael y gellid ei ailgyfeirio megis cronfeydd hapddigwyddiadau nad ydynt yn rhan o gronfeydd wrth gefn. Serch hynny, yn amlwg mae'r ffaith bod gan gyngor lefelau sylweddol uwch o gronfeydd wrth gefn refeniw yn berthynol i gost net ei wasanaethau sydd wedi bod yn cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf yn dynodi bod ei sefyllfa ariannol yn fwy cynaliadwy na chyngor â chronfeydd wrth gefn is sydd wedi bod yn lleihau dros nifer o flynyddoedd. Yn arbennig lle mae cronfeydd wrth gefn wedi bod yn cael eu defnyddio i ariannu gwariant refeniw nas rhagwelwyd.

16 Mae'r tabl isod yn nodi lefel y cronfeydd wrth gefn refeniw defnyddiadwy a oedd yn cael eu dal gan bob cyngor lleol ar ddiwedd 2018-19 a 2019-20. Defnyddiwn y term cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy i olygu cyfanswm balans y gronfa gyffredinol, ynghyd â chronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi nad yw cynghorau'n cael eu hatal yn gyfreithiol rhag eu hailgyfeirio i'w defnyddio at ddiben arall.

**Yr hyn yr ydym yn ei olygu wrth 'gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy'**

Cronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio ar gyfer costau refeniw, lle nad yw'r diben wedi'i ddiogelu gan y gyfraith. Cyfanswm y gronfa gyffredinol, cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi a balansau ysgolion yw hyn. Nid yw'n cynnwys y Gronfa Refeniw Tai, Derbyniadau cyfalaf a grantiau cyfalaf heb eu cymhwyso.



**Arddangosyn 2: swm y cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy a oedd yn cael eu dal gan bob awdurdod lleol yn 2018-19 a 2019-20**

| | Cost net gwasanaethau yn 2019-20 mewn £000[4] | Cronfeydd wrth gefn refeniw defnyddiadwy ar 31 Mawrth 2019 mewn £000[5] | Cronfeydd wrth gefn refeniw defnyddiadwy ar 31 Mawrth 2020 mewn £000[6] | Cynnydd/ (gostyngiad) mewn cronfeydd wrth gefn refeniw defnyddiadwy rhwng 2019 a 2020 mewn £000[7] |
|---|---|---|---|---|
| Blaenau Gwent | £148,762 | £12,725 | £14,056 | £1,331 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | £289,242 | £56,883 | £64,562 | £7,679 |
| Caerffili | £370,910 | £90,896 | £100,547 | £9,651 |
| Caerdydd | £712,111 | £67,969 | £69,149 | £1,180 |
| Sir Gaerfyrddin | £373,888 | £93,898 | £100,837 | £6,939 |
| Ceredigion | £155,817 | £24,192 | £27,688 | £3,496 |
| Conwy | £237,279 | £14,114 | £11,005 | (£3,109) |
| Sir Ddinbych | £207,366 | £38,047 | £36,434 | (£1,613) |
| Sir y Fflint | £315,765 | £27,334 | £24,318 | (£3,016) |
| Gwynedd | £250,149 | £64,885 | £71,090 | £6,205 |
| Ynys Môn | £143,705 | £15,271 | £16,017 | £746 |
| Merthyr Tudful | £118,608 | £16,743 | £15,875 | (£868) |
| Sir Fynwy | £177,834 | £13,741 | £15,246 | £1,505 |
| Castell-nedd Port Talbot | £306,961 | £61,394 | £59,093 | (£2,301) |
| Casnewydd | £313,904 | £94,742 | £78,806 | (£15,936) |
| Sir Benfro | £240,375 | £46,435 | £45,746 | (£689) |
| Powys | £276,153 | £26,758 | £28,584 | £1,826 |
| Rhondda Cynon Taf | £529,390 | £119,470 | £119,873 | £403 |
| Abertawe | £444,555 | £77,022 | £93,752 | £16,730 |
| Torfaen | £186,602 | £18,690 | £16,738 | (£1,952) |
| Bro Morgannwg | £248,602 | £81,161 | £83,008 | £1,847 |
| Wrecsam | £257,842 | £28,944 | £26,205 | (£2,739) |
| **Cyfanswm** | **£6,305,820** | **£1,091,314** | **£1,118,629** | **£27,315** |

4 Datganiad Cyfrifon drafft ar gyfer 2019-20 yn amodol ar ei archwilio. Y gwerth a ddefnyddir yw cost net gwasanaethau a godwyd ar y gronfa gyffredinol o'r Dadansoddiad o Gyllido Gwariant, namyn unrhyw gost gwasanaethau a briodolir i'r Cyfrif Refeniw Tai, a phraeseptau, ardollau a llog ar ddyledion


5 Datganiad Cyfrifon Archwiliedig ar gyfer 2018-19

6 Datganiad Cyfrifon drafft ar gyfer 2019-20 yn amodol ar eu harchwilio

7 Cyfrifiadau Archwilio Cymru

17 Mae'r arddangosyn isod yn nodi lefel y cronfeydd wrth gefn refeniw defnyddiadwy a oedd yn cael eu dal gan bob cyngor lleol ar ddiwedd 2019-20 fel cyfran o gost net gwasanaethau pob cyngor.

**Arddangosyn 3: swm y cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy fel cyfran o gost net gwasanaethau pob cyngor**




8 Cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy ar 31 Mawrth 2020 fel cyfran o gost net gwasanaethau 2019-20

18 Fel a ddangosir uchod, ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2019-20 roedd cynghorau'n dal dros £1 biliwn mewn cronfeydd wrth gefn refeniw defnyddiadwy, sy'n cyfateb i 18% o gyfanswm cost net gwasanaethau ar draws yr holl gynghorau. Fodd bynnag, nid yw hyn wedi'i wasgaru'n gyfartal ar draws cynghorau, ac mae hefyd yn amlwg bod rhai cynghorau'n dal cryn dipyn yn fwy o gronfeydd wrth gefn nag eraill yn berthynol i'r bras amcan o gost net eu gwasanaethau. Er bod hwn yn ddadansoddiad gweddol or-syml, mae lefel y cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy sydd ar gael i gyngor yn un o ddangosyddion allweddol cydnerthedd a chynaliadwyedd ariannol.

19 O'r gwaith a wnaethom yn ystod 2019-20, a oedd yn canolbwyntio'n bennaf ar y sefyllfa ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2018-19, canfuom rai o'r themâu canlynol sy'n rhagddyddio'r pandemig ond a allai effeithio ar allu cynghorau i ymateb iddo. Mae'r rhain yn cynnwys:

- nododd y rhan fwyaf o gynghorau fod ganddynt naill ai danwariannau cymharol fach neu orwarariannau ar y cyfan yn 2018-19 ac roedd yn ddarlun tebyg ar gyfer 2017-18.
- roedd rhai cynghorau'n dibynnu ar ddefnydd heb ei gynllunio o gronfeydd wrth gefn i fantoli eu cyllidebau yn ystod 2018-19. Mae'r dull hwn yn annhebygol o fod yn gynaliadwy, yn enwedig yn y cynghorau hynny yr oedd lefelau eu cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy eisoes yn gymharol isel.
- roedd rhai cynghorau'n dibynnu ar ddefnydd wedi'i gynllunio o gronfeydd wrth gefn fel rhan o bennu'r gyllideb. Er bod hyn o bosibl wedi cael ei gynllunio ar ddechrau'r flwyddyn ariannol, serch hynny, mae defnyddio cronfeydd wrth gefn yn gyson, hyd yn oed mewn ffordd wedi'i chynllunio, i fantoli gwariant refeniw yn annhebygol o fod yn gynaliadwy os yw hyn yn cyfrannu at lefelau gostyngol o ran cronfeydd wrth gefn.
- roedd gan y rhan fwyaf o gynghorau, gan gynnwys y rhai a gyflawnodd warged ar y cyfan, rai gorwariannau sylweddol o hyd mewn rhai gwasanaethau sy'n ymateb i'r galw, gyda gwasanaethau megis gwasanaethau cymdeithasol yn un o'r meysydd lle'r oedd gorwariant mewn llawer o gynghorau. Mae pwysau ar lawer o wasanaethau sy'n ymateb i'r galw'n debygol o ddwysáu o ganlyniad i'r pandemig.
- fe wnaeth y rhan fwyaf o gynghorau gyflawni'r rhan fwyaf o'u harbedion, ond ychydig iawn a gyflawnodd eu holl arbedion wedi'u cynllunio yn 2018-19.

## Mae cost y pandemig i gynghorau'n sylweddol, er bod cyfran fawr o'r effaith fyrdymor wedi cael ei lliniaru trwy ddarparu cyllid ychwanegol

20 Mae costau ymateb i'r pandemig i gynghorau wedi bod yn ddigynsail o ran eu graddfa a pha mor gyflym y maent wedi codi. Trefnwyd fod cyllid ychwanegol ar gael i gynghorau i leddfu'r costau hyn; fodd bynnag, nid yw'n hysbys i ba raddau y bydd hyn yn ariannu cost ymdrin â'r pandemig, yn enwedig dros y tymor canolig a hir, yn llawn. Mae hyn yn rhannol anorfod oherwydd y darlun sy'n datblygu'n gyflym o ran hynt y pandemig, yn ogystal â'i effaith economaidd. Bydd y darlun hefyd yn newid yn sylweddol gan ddibynnu pa un a geir hyrddiau pellach o'r pandemig yn y dyfodol ai peidio, a faint ohonynt a pha mor ddifrifol fyddant o bosibl.

21 Mae'r pandemig wedi effeithio ar gyllid llywodraeth leol o ran costau uwch a cholli incwm. Mae **Arddangosyn 4** yn dangos y gwariant net ychwanegol a'r incwm a fydd yn cael ei golli o ganlyniad i'r pandemig yn ôl amcangyfrifon cynghorau yn chwe mis cyntaf blwyddyn ariannol 2020-21 ar gyfer chwarter 1 a chwarter 2.

22 Y prif feysydd lle ceir mwy o bwysau o ran costau hyd yma yw gwasanaethau cymdeithasol ac addysg.

23 Mae cynghorau'n cael incwm o ystod o wasanaethau gan gynnwys cyfleusterau hamdden, parcio ceir, prydau mewn ysgolion a chludiant i ysgolion. Amcangyfrifir y bydd y colledion mwyaf o ran incwm yn digwydd mewn gwasanaethau hamdden a diwylliannol.

24 Mae hefyd yn glir bod effaith ariannol y pandemig yn debygol o barhau trwy gydol 2020-21 ac i mewn i flynyddoedd yn y dyfodol.

25 Mae **Arddangosyn 4** yn nodi cyfanswm y gwariant ychwanegol a'r incwm a fydd yn cael ei golli o ganlyniad i bandemig COVID-19 yn ôl amcangyfrifon awdurdodau lleol, yn seiliedig ar wybodaeth a gyflwynwyd gan awdurdodau lleol i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC).

**Arddangosyn 4: cyfanswm y gwariant net ychwanegol a'r golled o ran incwm a amcangyfrifir ar draws y 22 o awdurdodau unedol yng Nghymru o ganlyniad i bandemig COVID-19**

| | Amcangyfrif o'r gwariant refeniw net ychwanegol | Amcangyfrif o'r incwm a fydd yn cael ei golli o ganlyniad i COVID-19 |
|---|---|---|
| Chwarter 1 (Ebr-Meh) | £84.2 miliwn | £100.1 miliwn |
| Chwarter 2 (Gorff-Medi) | £81.3 miliwn | £59.7 miliwn |

Ffynhonnell: CLILC

26 Mae'r pandemig wedi effeithio'n sylweddol ar wasanaethau cyhoeddus ac, yn y cyd-destun hwn, bydd lliniaru'r effaith ar gynghorau nid yn unig yn dibynnu ar y camau gweithredu y maent yn gallu eu cymryd, ond hefyd i raddau helaeth ar swm yr adnoddau a ddyrennir gan lywodraethau. Rydym yn cydnabod mai un o'r materion allweddol o hyd i gynghorau wrth geisio cynllunio'n ariannol dros y tymor canolig yw'r ansicrwydd ynghylch lefel y cyllid y byddant yn ei gael gan eu llywodraeth, a'u ffrydiau incwm hwy eu hunain, megis y dreth gyngor a ffioedd a thaliadau. Yn ychwanegol at hyn ceir yr ansicrwydd ynghylch y costau posibl yn y dyfodol a fydd yn gysylltiedig â'r pandemig. Fe wnaethom nodi uchod bod Llywodraeth Cymru wedi trefnu bod bron i £500 miliwn ar gael i gynghorau trwy Gronfa Caledi Llywodraeth Leol yn ogystal â chyllid ychwanegol arall.

27 Mae hyn wedi lliniaru costau ychwanegol a cholledion incwm cynghorau lleol hyd yma, ond gan ddibynnu ar gwrs y pandemig yn y dyfodol, efallai y bydd diffyg sylweddol o ran cyllid i awdurdodau lleol o hyd yn ystod 2020-21. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cyflymu mynediad at y Grant Cynnal Refeniw a ffrydiau ariannu eraill yn gynnar yn y flwyddyn ariannol i helpu llif arian cynghorau. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru hefyd ym mis Awst 2020 y byddai £2.8 miliwn yn ychwanegol ar gael i gynghorau i helpu i ariannu'r cynnydd yn y galw ar Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor Llywodraeth Cymru ers dechrau'r pandemig. Mae'n amlwg bod ansicrwydd ynghylch cwrs y pandemig yn y dyfodol ac felly'r costau a'r colledion incwm sy'n gysylltiedig ag ef. Mae hyn yn her sylweddol i lywodraethau lleol a chenedlaethol o ran cefnogi cynaliadwyedd y sector llywodraeth leol. Rydym yn cydnabod yr elfennau niferus o ansicrwydd ynghylch cwrs y pandemig a'r cyllid a fydd ar gael i gynghorau yn y dyfodol. Mae hyn yn ei gwneud yn anos i gynghorau, ac i lywodraethau, gynllunio dros y tymor canolig. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau cynaliadwyedd cynghorau yn y dyfodol, mae cynllunio ariannol cadarn dros y tymor canolig yn hollbwysig.

28 Bydd ein gwaith lleol ar gynaliadwyedd ariannol yn parhau i archwilio i ba raddau y mae cynghorau'n wynebu diffyg yn eu cyllidebau am y flwyddyn hon a blynyddoedd yn y dyfodol, a'u cynlluniau i liniaru hyn yng nghyd-destun cyllid gan Lywodraeth Cymru yn y dyfodol.

## Mae'r heriau ariannol sy'n deillio o'r pandemig yn niferus ac yn mynd ymhell y tu hwnt i gostau mwy uniongyrchol ac amlwg ymateb i'r argyfwng


29 Mae'r pandemig yn debygol o effeithio ar bron pob agwedd ar wasanaethau llywodraeth leol, ac felly eu cyllid. Mae'r colledion incwm a'r costau gwariant ychwanegol a nodwyd uchod yn elfen arwyddocaol o hyn. Ond hyd yn oed wrth i wasanaethau ail-agor yn y tymor byr a chanolig, bydd costau ychwanegol yn gysylltiedig â darparu cyfarpar diogelwch personol i staff ac ar gyfer mesurau diogelwch eraill. Er enghraifft, wrth i ysgolion ail-agor ym mis Medi, mae'n debygol y bydd costau'n gysylltiedig ag ailgyflwyno cludiant i ysgolion.

30 Ar yr un pryd, mae'n debygol y bydd effeithiau'n dal i fod ar ffrydiau incwm megis o ganolfannau hamdden a meysydd parcio, oherwydd gofynion diogelwch a/neu lai o alw am wasanaethau o bosibl. Mae effaith economaidd y pandemig hefyd yn debygol o ddwyn sgîl-effeithiau ehangach ar gyfer gallu pobl i dalu am wasanaethau, yn enwedig y rhai y byddant o bosibl yn ystyried 'nad ydynt yn hanfodol'. Gallai hyn hefyd arwain at gynnydd mewn cymhwystra ar gyfer cynlluniau prisio consesiynol, a allai hefyd effeithio ar lefel yr incwm y gall cynghorau ei dynnu i mewn.

31 Wrth i effaith economaidd y pandemig ddwysáu, mae hefyd yn debygol y bydd incwm o'r dreth gyngor yn gostwng, yn ogystal â refeniw tai ar gyfer y cynghorau hynny sy'n dal i fod â'u stoc dai eu hunain.

32 Gallai cynaliadwyedd rhai gwasanaethau fod dan fygythiad gyda phwysau arbennig yn debygol o gael eu teimlo mewn meysydd megis gwasanaethau hamdden a'r sector gofal cymdeithasol. Mae CLILC hefyd wedi adnabod pwysau sylweddol o ran costau mewn rhai meysydd gwasanaeth, yn anad dim gwasanaethau cymdeithasol ac addysg. Erbyn 2022-23 mae'n amcangyfrif y bydd y pwysau cyfunol o ran costau yn y gwasanaethau hyn yn unig yn gymaint ag oddeutu £600 miliwn.

33 O ystyried ehangder, a dyfnder, effaith y pandemig hyd yma, ochr yn ochr â'r ansicrwydd ynghylch ei gwrs yn y dyfodol, mae awdurdodau lleol yn debygol o wynebu dewisiadau anodd dros y tymor byr a chanolig. Yn y cyd-destun hwn, daw cynllunio ariannol strategol da a threfniadau llywodraethu a phenderfynu cadarn i fod yn bwysicach byth.



## Gwaith Archwilio Cymru yn y dyfodol – cefnogi cynaliadwyedd ariannol a gwaith cynllunio adferiad

34 Dros 2020-21, yn gyson â'n hymrwymiad i gefnogi ymateb cyrff cyhoeddus i'r pandemig, byddwn yn gweithio gyda chynghorau i gael sicrwydd eu bod yn sefydlu trefniadau priodol i sicrhau cynaliadwyedd ariannol. Wrth wneud hynny, byddwn yn ceisio casglu a rhannu gwersi ac arfer mewn amser real ar draws y sector cyhoeddus. Bydd ffocws ein gwaith cynaliadwyedd ariannol dros 2020-21 ar y materion a nodir uchod a sut y mae cynghorau'n cynllunio ar gyfer adferiad cynaliadwy dros y tymor canolig a hir. Bydd y gwaith hwn hefyd yn digwydd ochr yn ochr â'n cefnogaeth a her i gynllunio adferiad a'r gwaith yr ydym yn ei wneud trwy ein 'Prosiect dysgu COVID-19'. Byddwn yn ymgysylltu â chynghorau'n fuan i drafod cam nesaf ein gwaith cynaliadwyedd ariannol mewn mwy o fanylder.

Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffôn testun: 029 2032 0660

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru